

O YSBAID I YSBAID - Chwefror 2019

Ym mro fy mebyd

Ym mro fy mebyd
dyw'r pridd ddim yn gwaedu popis
a'r cloc yn dawnsio'n llonydd
pob Tachwedd yr unfed ar ddeg.

Beth ddywedaf, felly, am ryfel
na lyncodd fardd o'm tir
na llanciau llawn dyfodol
a'u gwlad yn galaru am byth?

Llithrodd fro fy mebyd
i ymyl y byd
a'r Rhyfel Mawr - fel hunllef hen a suodd llawer i'r bedd
bron yn ddiarth, chwedl llên.

Dyw'r pridd ddim yn maethu popis
ar fin y ddaear, ymhell.

Ga' i glymu barn
gan chwaer y paith
â'm geiriau bregus, prin?

*'Annwyl D. R. Daniel,
'buasai'r hen fyd yma yn hollol anhrigiadwy
onibae am y "Gweddillion"
a gedwir ym mhob oes
rhag plygu glin'*

fel hyn y sgwennodd Eluned,
ac yn llwyr cytunaf fi.

Sara Borda Green

Lili wen fach
(teyrnged i Madres de Plaza de Mayo)

O lili wen fach, o ble daethost ti?

Anwesais gromlin y ddaear
am dair awr ar ddeg. Y cwbl sy' angen
i adael *mi Buenos Aires*
a'i dwndwr a'i bwrlwm a'i bywyd stwbwrn
tu ôl.

Ac yn awr, ar ryw wawr lonawr
tra'r oriau'n toddi'n araf lawr gwydrau ffenest Gatwick
arhosaf
am drên ar oriau allfrig
i lithro ar hyd traciau syth ar y ffordd adra
adra, plis.

O lili wen fach, o ble daethost ti?
A'r gwynt mor arw ac mor oer ei gri?

Ar ysbaid rhwng awyren a thrên
daw llais seiren wen o waelod fy mag, ac er gwaetha'r *jet lag*
ni allaf ond ildio. Trwy gyfrwng cyfrol swynol
rwy'n cilio
i fyd fflêrs a ffrinj a sgertiau byr,

milwyr â chapiau a gynnau hir. Croeso
i'r Rhyfel Oer!
Ble bynnag y bo: Vietnam. Neu'r Congo. Ariannin!
Cymerwch eich tro!

Dyna pam ar y gornel, ar ddiwedd y map
ceir sawl cadair wag
o gwmpas y bwrdd, yn nistawrwydd rhyw ardd.

Ble mae Daniel? Ble mae Daniel?
Ai cuddio mae o
dan fflêrs a feynyl rôc?
Pwy a wŷyr? Neu be di'r ots?
'Diflanedig' fe'i elwir
gan lywydd y wlad¹ - mae'r gaeaf wedi cyrraedd
bydd yn dawel nawr.

'Diflanedig' fe'u gelwir
gan lywydd y wlad - tri deg mil ohonynt
'nac yma na thraw'.

O lili wen fach, o ble daethost ti?
A'r gwynt mor arw ac mor oer ei gri?

¹ Jorge Rafael Videla, 1979

Sut y mentraist di allan drwy'r eira i gyd?

Roedd y gwynt yn groes a'i gri yn gas

ond
er hynny
yn ddirybudd
blagurodd
fymryn o lais
wrthsafiad
jysd lili wen fach.

Gwisgodd sawl mam cadach gwyn ar ei phen
i ddangos ei phoen, i ofyn am help,
ac yn Plaza de Mayo trodd y sibrwd yn llef:
Ble mae Daniel²? Ble mae Daniel?
Ac yn ddwysach:
Ble mae Diana³? A'u baban Clara⁴?

Hyd heddiw daw atsain
eu cwestiynau teg:
'Ble aethoch â'm mab?'
'Ble ma' fy merch?'

*O lili wen fach, o ble daethost ti?
A'r gwynt mor arw ac mor oer ei gri?
Sut y mentraist di allan drwy'r eira i gyd?
Nid oes blodyn bach arall i'w weld yn y byd*

Ar ryw bnawn Ionawr
o'r diwedd
cyrhaeddais adra

a'r lilis yn sôn
bod y gwanwyn yn mynnu dod.

Sara Borda Green

² Daniel Mariani

³ Diana Teruggi

⁴ Clara Anahí Mariani